

Polisi Mewnol ar Dderbyn a Gwrthod Rhoddion a Chyfraniadau

Cyflwyniad:

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wrthi'n ddyfal yn chwilio ac yn annog cyfraniadau a rhoddion o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys gan unigolion, cwmnïau, ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol a chymdeithas Cyfeillion y Llyfrgell. Gall y cyfraniadau a'r rhoddion hyn fod ar ffurf arian, eiddo, eitemau ar gyfer y casgliadau¹, gwasanaethau mewn nwyddau neu waith gwirfoddol *pro-bono*.

Diben y polisi hwn yw galluogi Bwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r staff sy'n eu cefnogi i wneud penderfyniadau clir a chyson ynghylch derbyn neu wrthod cyfraniadau a rhoddion.

Beth bynnag fo unrhyw weithdrefnau dirprwyo mewnol yn y Llyfrgell, mae'r cyfrifoldeb yn y pen draw ynghylch derbyn neu wrthod pob cyfraniad a rhodd yn nwylo Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Nid oes unrhyw statud penodol unigol yn y gyfraith i arwain yr Ymddiriedolwyr ar y mater hwn. Fodd bynnag, mae egwyddorion cyfreithiol perthnasol y mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr a'u hymgyngorwyr sicrhau eu bod yn eu bodloni wrth benderfynu p'un ai i dderbyn cyfraniadau neu roddion ai peidio.

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i Ymddiriedolwyr, wrth benderfynu a ddylid derbyn neu wrthod cyfraniad neu rodd penodol, ystyried pa lwybr fyddai fwyaf er lles y Llyfrgell yn gyffredinol. Mae'r gyfraith yn caniatáu ystyried ffactorau ymarferol a moesegol cyn belled â'u bod yn rhai sy'n debygol o effeithio ar fuddiannau penodol y Llyfrgell.²

Cyngor a Chyfeiriadau: Y Sefydliad Codi Arian a'r Comisiwn Elusennau

Y Sefydliad Codi Arian yw corff proffesiynol y Deyrnas Unedig sy'n cefnogi elusennau a chodwyr arian unigol yn eu gwaith. Er nad yw codi arian ei hun ar y cyfan wedi'i reoleiddio o dan y gyfraith, mae yna nifer o ofynion rheoliadol sy'n effeithio arno. Mae'r Sefydliad wedi datblygu Cod Ymddygiad a Chodau Ymarfer Codi Arian i ddarparu canllawiau ynghylch y gyfraith ac arferion gorau o ran gweithgarwch codi arian ledled y Deyrnas Unedig. O ran arweiniad penodol ynghylch derbyn neu wrthod rhoddion, mae'r Comisiwn Elusennau yn cyfeirio ymddiriedolwyr elusennau at gyhoeddiad y Sefydliad Codi Arian *Acceptance and Refusal of Donations Code of Fundraising Practice* (2006)³. Mae astudrwydd a rheoli risg yn briodol hefyd yn berthnasol; ceir arweiniad i ymddiriedolwyr yng nghyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau *Compliance Toolkit: Protecting Charities from Harm* (2011)⁴, yn enwedig *Chapter 2: Due Diligence, Monitoring and Verification of End Use of Charitable Funds*, a *Charities and Risk Management: A Guide for Trustees* (2006)⁵.

Caiff rhoddion a chyfraniadau eu derbyn yn ôl disgrisiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.⁶ Rhaid i unrhyw roddion neu gyfraniadau a allai beryglu enw da Llyfrgell Genedlaethol Cymru gael eu cyfeirio at y Tîm Gweithredol a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr cyn eu cymeradwyo.

¹ Caiff eitemau ar gyfer y casgliadau eu hystyried yn unol â [Polisi Datblygu Casgliadau \(2010\)](#) Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

² http://www.institute-of-fundraising.org.uk/Resources/Institute_of_Fundraising/Codes/Acceptance_and_Refusal_of_Donations_-_LRC_May_2011.pdf

³ Ibid.

⁴ http://www.charitycommission.gov.uk/Our_regulatory_activity/Counter_terrorism_work/protecting_charities_landing.aspx

⁵ <http://www.charitycommission.gov.uk/Publications/cc26.aspx>

⁶ Yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cyngor Arian a'r Comisiwn Elusennol a ddyfynnir uchod.

Mae'n rhaid cyfeirio rhoddion gan unigolyn neu gwmni a allai fod neu ddod, o ganlyniad i'r rhodd arfaethedig a wneir, yn "rhoddwr mawr" yn ôl canllawiau Cyllid a Thollau EM⁷ at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a fydd yn gyfrifol am ddwyn y mater ger bron Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Canllawiau:

Wrth ystyried derbyn cyfraniad neu rodd, bydd y canllawiau canlynol yn berthnasol:

- Dylai rhoddion a chyfraniadau gefnogi amcanion Llyfrgell Genedlaethol Cymru (fel y'u nodir yn ei Siarter Frenhinol⁸), ynghyd â'i chenhadaeth a'i strategaeth.
- Mae'n rhaid i unrhyw gostau ac amodau ychwanegol sy'n gysylltiedig â derbyn cyfraniad neu rodd gael eu nodi'n glir a rhaid i Fwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac/neu'r Tîm Gweithredol gytuno arnynt, fel y bo'n briodol.
- Dylid cymryd camau rhesymol a phriodol i ganfod nad yw'r rhodd neu'r cyfraniad arfaethedig yn deillio, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, o weithgareddau anghyfreithlon neu anfoesegol a allai gynnwys:
 - trosedd;
 - osgoi talu treth.
- Dylid cymryd camau rhesymol a phriodol i ganfod na fyddai derbyn y rhodd neu gyfraniad arfaethedig:
 - yn golygu y bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn rhan o weithredu sy'n anghyfreithlon neu'n anfoesegol;
 - yn arwain Llyfrgell Genedlaethol Cymru i fynd yn groes i ddeddfwriaeth ar ddiogelu data ac/neu ryddid gwybodaeth;
 - yn creu gwrthdaro buddiannau annerbyniol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru;
 - yn gwneud Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn agored i atebolrwydd sylweddol;
 - yn niweidio enw da Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
 - yn atal cymwynaswyr eraill;
 - yn niwed difrifol i berthynas Llyfrgell Genedlaethol Cymru â chymwynaswyr eraill, partneriaid, gweithwyr, defnyddwyr neu randdeiliaid eraill.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn rhydd i beidio â derbyn rhoddion neu gyfraniadau a allai niweidio neu amharu, mewn unrhyw ffordd, ar ei henw da neu ei gallu i gyflawni ei chenhadaeth a'i gweledigaeth⁹. Er y gellir gwrthod cyfraniad neu rodd os bydd y gost yn y pen draw i'r Llyfrgell o dderbyn y cyfraniad neu'r rhodd yn fwy na'i werth, eto mae'n rhaid i ymddiriedolwyr fedru dangos bod ganddynt sail resymol dros gredu y byddai derbyn y rhodd neu'r cyfraniad yn arwain at ostyngiad net yn sylfaen asedau'r Llyfrgell.

Yn yr un modd, wrth ystyried derbyn neu wrthod cyfraniad neu rodd yn niweidio enw da Llyfrgell Genedlaethol Cymru, rhaid asesu hynny o safbwynt ystyriaethau ariannol yn unig; hynny yw, y byddai

⁷ http://www.hmrc.gov.uk/charities/guidance-notes/annex2/annex_ii.htm#11

⁸ http://www.llgc.org.uk/fileadmin/documents/pdf/Charter_2006.pdf

⁹ Yn unol â'r arweiniad a geir yn **Cyngor a Chyfeiriadau: Y Sefydliad Codi Arian a'r Comisiwn Elusennau** uchod.

derbyn neu wrthod cyfraniad neu rodd yn arwain at golled ariannol mwy i'r Llyfrgell na'r swm a geid o'i dderbyn, neu'r swm a gollid trwy ei wrthod.

Gall cyfraniadau a rhoddion ddenu Cymorth Rhodd a buddion treth neu beidio eu denu, yn dibynnu ar statws treth y rhoddwr. Ni fydd y manteision hyn yn dylanwadu ar benderfyniad Llyfrgell Genedlaethol Cymru i dderbyn neu wrthod cyfraniad neu rodd.

Pan fo rhoddwr yn cynnig rhoi neu gyfrannu gydag amodau ynghlwm, mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cadw'r hawl i wneud y penderfyniad terfynol ynghylch derbyn neu wrthod y rhodd/cyfraniad.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cadw'r hawl i ofyn am gyngor cyfreithiol o ran derbyn neu wrthod unrhyw rodd neu gyfraniad.

Gall yr Ysgrifennydd a Phennaeth Llywodraethiant a'r Rheolwr Codi Arian roi cyngor ar y canllawiau hyn a bydd ymgynghori ymlaen llaw yn golygu osgoi gwneud camgymeriadau.

Ni ddylid gwahodd cyfraniadau a rhoddion neu unrhyw godi arian arall heb gytuno ar hynny gyda'r Rheolwr Codi Arian er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r polisi hwn ac i liniaru'r risg o wneud cysylltiadau heb eu cydlynu â darpar roddwr unigol.

Bydd yr Ysgrifennydd a Phennaeth Llywodraethiant yn cadw cofnod o'r bobl hynny y mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo pŵer iddynt dderbyn neu wrthod rhoddion a chyfraniadau ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau a osodir ar ddirprwyaethau o'r fath, a bydd hefyd yn cadw cofnod o'r holl roddion a chyfraniadau a gyfeiriwyd at Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac/neu'r Tîm Gweithredol i'w hystyried.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Pedr ap Llwyd	Rhian Evans
Ysgrifennydd a Phennaeth Llywodraethiant	Rheolwr Codi Arian

Y broses:

1. Yn y lle cyntaf, dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod yr arian dan sylw yn dod o ffynhonnell *gyfreithlon* (h.y. nad yw'n gynnrych gweithgarwch anghyfreithlon). Yn ganolog i hyn yw sicrwydd ynghylch pwy yw'r rhoddwr a tharddiad yr arian a'r amodau ynghlwm wrtho. Bydd defnyddio egwyddorion 'Adnabod eich Rhoddwr' yn cynorthwyo'r Ymddiriedolwyr yn hyn o beth.¹⁰
2. Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, mae angen i'r Ymddiriedolwyr benderfynu pa gamau (h.y. derbyn neu wrthod y cyfraniad neu rodd) fydd er lles gorau'r elusen. Noda Cod Ymarfer y Sefydliad Codi Arian:

The law allows practical and ethical factors to be taken into account as long as they are ones that are likely to affect the specific interests of the charity.

Felly bydd angen i'r Ymddiriedolwyr ystyried amcanion y Llyfrgell, fel y'u nodir yn y Siarter Frenhinol.

¹⁰ Gweler *Compliance Toolkit* y Comisiwn Elusennau tt. 19 – 25.

Gall Ymddiriedolwyr wrthod y cyfraniad neu rodd os bydd y sail ar gyfer rhoi'r cyfraniad/rhodod yn glir yn groes i'r amcanion:

*Where it is clear that the activities of a donor are directly inimical to the objectives of the charity, the agreed policies of the charity, or to the beneficiaries of the charity, the trustees can refuse the donation.*¹¹

Ymhellach:

*Where the potential donor is a person or a company whose activities are not directly related to the charitable objects of the charity, but the charity nevertheless wishes to avoid association with the donor, great care should be exercised in coming to a decision (see Section 4.0).*¹²

3. Bydd yn rhaid i'r Ymddiriedolwyr hefyd gynnal asesiad risg er mwyn dangos bod y camau a wneir ganddynt (sef derbyn neu wrthod) yn rhesymol o ystyried y risgiau a'r camau lliniaru, a, thrwy hynny, er budd gorau'r elusen. Mae hyn yn bwysig, fel y noda Cod Ymarfer y Sefydliad Codi Arian:

*In such cases the trustees are potentially answerable to the Charity Commission or the Office of the Scottish Charity Regulator (OSCR) and MUST be able to demonstrate clearly to the Commissioners or OSCR how 'the best interests of the charity' have been served in accepting or refusing the donation in question.*¹³

Wrth gynnal asesiad risg, dylai'r ymddiriedolwyr:

- nodi ac enwi'r risgiau perthnasol;
- asesu risgiau yn ôl difrifoldeb posibl eu heffaith (di-nod, bychan; cymedrol; mawr; enbyd/trychinebus) a thebygolrwydd y byddant yn digwydd (go brin; annhebygol; posibl; mwy na thebyg, yn debygol iawn);
- gwerthuso pa gamau sydd angen eu cymryd yn ymwneud â'r risgiau.¹⁴

Gweler Atodiad 1 i gael rhagor o fanylion.

4. Os yw'r ymddiriedolwyr, ar ôl ystyried yr uchod, yn parhau i fod yn ansicr ynghylch a ddylid derbyn y cyfraniad neu rodd neu beidio, a bod yr achos yn cael ei ystyried 'yn gymhleth' neu 'efallai'n anodd', mae Cod Ymarfer y Sefydliad Codi Arian yn datgan:

¹¹ *Acceptance and Refusal of Donations Code of Fundraising Practice, t.6.*

¹² *ibid.* Mae Adran 4.0 y Cod Ymarfer yn nodi: "Whilst in general it is not sufficient cause to refuse a donation on the grounds of a general objection to the potential donor, Section 62, Charities Act 1992, Part II and section 82, Charities and Trustees Investment (Scotland) Act 2005 do provide trustees with some leeway in this respect. These sections allow charities to obtain a court order preventing unauthorised fundraising where an individual is using fundraising methods to which the charity objects or where the charity believes that an individual is not a fit and proper person to raise funds on its behalf." *Ibid.* tt. 7-8.

¹³ *Ibid.* t.5

¹⁴ *Charities and Risk Management, tt. 17-24*

In order to pre-empt possible disputes and/or negative publicity in complex or potentially difficult cases, trustees of charities registered in England and Wales may wish to apply to the Charity Commission for an order authorising the charity to refuse a donation (see Section 4.0).

Circumstances where such an order might be of particular benefit are those where:

- *It is not immediately clear what the 'best interests of the charity' are in relation to the proposed donation;*
- *Large sums of money or property are involved;*
- *The trustees have reason to believe that a decision taken by them might be subsequently challenged in the courts; and*
- *The trustees wish to use the 'authority' of a Charity Commission in order to mitigate against the threat of negative publicity engendered by the refusal of a donation.¹⁵*

Pedr ap Llwyd
Ionawr 2016

¹⁵ *Acceptance and Refusal of Donations*, t. 5.

Matrics Rheoli Risg(yn seiliedig ar *Charities and Risk Management: a guide for trustees* (Y Comisiwn Elusennau, 2006))

Allwedd Asesu Risg		
Effaith		
Disgrifydd	Sgôr	Effaith ar wasanaeth ac enw da
Di-nod	1	<ul style="list-style-type: none"> • Dim effaith ar y gwasanaeth • Dim effaith ar enw da • Cwyn yn annhebygol • Mynd i gyfraith yn risg isel iawn
Bychan	2	<ul style="list-style-type: none"> • Effaith bychan ar y gwasanaeth • Effaith bychan ar enw da • Cwyn yn bosibl • Mynd i gyfraith yn bosibl
Cymedrol	3	<ul style="list-style-type: none"> • Peth tarfu ar y gwasanaeth • Potensial am gyhoeddusrwydd anffafriol – gellid ei osgoi o'i drin yn ofalus • Cwyn yn debygol • Mynd i gyfraith yn debygol
Mawr	4	<ul style="list-style-type: none"> • Tarfu ar y gwasanaeth • Ni ellir osgoi cyhoeddusrwydd anffafriol (y cyfryngau lleol) • Cwyn yn debygol • Mynd i gyfraith yn debygol
Enbyd / trychinebus	5	<ul style="list-style-type: none"> • Tarfu ar y gwasanaeth am gyfnod sylweddol • Methu osgoi cyhoeddusrwydd anffafriol mawr (y cyfryngau cenedlaethol) • Disgwylir achos mawr wrth fynd i gyfraith • Ymddiswyddiad uwch reolwyr a'r bwrdd • Colli hyder buddiolwyr
Tebygolrwydd		
Disgrifydd	Sgôr	Enghraifft
Go brin	1	Byddai ond yn digwydd mewn amgylchiadau eithriadol
Annhebygol	2	Disgwylir iddo ddigwydd mewn ambell amgylchiad
Posibl	3	Disgwylir iddo ddigwydd mewn rhai amgylchiadau
Mwy na thebyg	4	Disgwylir iddo ddigwydd mewn nifer o amgylchiadau
Yn debygol iawn	5	Disgwylir iddo ddigwydd yn aml ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau